

Agroceutical Products Limited

Proffil y Cwmni

Sefydlwyd Agroceutical Products Limited (APL) yn 2012 i fasnacheiddio dros 8 mlynedd o waith ymchwil gan yr Athro Trevor Walker a'i gydweithwyr. Y nod oedd datblygu dull cost-efeithiol, ar raddfa, o gynhyrchu Galanthamine o gennin Pedr.

Darganfuwyd fod Galanthamine yn effeithiol ar gyfer trin clefyd Alzheimer, ac ar hyn o bryd, mae wedi'i gymeradwyo mewn nifer o wledydd at ddiben trin symptomau gorddrysych henaint. Fodd bynnag, nid oes ffynhonnell naturiol Galanthamine ar gael yn rhywdd yn y farchnad.



Y Cyfarwyddwr, Kevin Stephens, a'r Athro Trevor Walker yng nghaeau cennin Pedr APL

Cydweithio â BEACON

Nod cydweithio â BEACON oedd cynyddu swm ac ansawdd y deunydd sy'n llawn alcaloid a'r Galanthamine a echdynnir o wahanol rannau o'r genhinen bedr. Caiff Galanthamine ei echdynnu o'r cennin Pedr trwy broses gymhleth. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gyfaint llai o'r cynnyrch terfynol. Trodd y cyfarwyddwr, Kevin Stephens, at BEACON o ganlyniad i'r amgylchiadau hyn. Yn sgil cydweithio â BEACON yn y gorffennol, roedd Kevin eisoes yn ymwybodol o'r cyfleusterau maint peilot, yr offer a'r sgiliau helaeth a oedd ar gael.

Er bod echdynnu Galanthamine yn broses anodd, ymgwymerwyd â phrosiect heriol; darparodd APL swm sylweddol o fylbiau cennin Pedr a defnyddiodd BEACON eu cyfarpar a'u harbenigedd. Trwy ddefnyddio gwasg sgriwio maint peilot, hidlo a monitro dadansoddol (HPLC, cromatograffaeth hylif perfformiad uchel), daeth canlyniadau cadarnhaol i'r amlwg yn gyflym. Arweiniodd yr archwiliadau ymchwil gan BEACON at gynnwdd sylweddol yn y swm a echdynnwyd.

“*Dechreuom weithio gyda BEACON oherwydd eu henw da, y sgiliau a'r offer a gynigiant. Nid oedd yr un sefydliad arall yn gallu cystadlu!*”

Kevin Stephens,
Cyfarwyddwr

Echdynnu cyfansoddion cennin Pedr yw busnes craidd APL; mae'r cydweithio â BEACON wedi gweld buddion uniongyrchol i'r busnes ac wedi amlygu cyfleoedd ymchwil i Kevin a'i gwmni yn y dyfodol. Yn sgil rhyngweithio â BEACON, mae APL bellach yn aelod consortiwm o brosiect newydd wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn IBERS (HiPLExSon). Bydd y prosiect yn bwrw golwg ar ddatblygu gwaith o buro Galanthamine ac alcaloidau cennin Pedr eraill gyda thrwybwn uchel yn ddiweddarach yn y broses, gan ddefnyddio cromatograffaeth gwrthlif perfformiad uchel (HPCCC).



Agroceutical Products

Am fwy o wybodaeth: www.agroceutical.com/